

Ffowndri Rhuddlan

Francis Corbett oedd cadeirydd a rheolwr-gyfarwyddwr yn y cwmni hynod lwyddiannus, Mri Corbett, Williams & Fab, Gwaith Haearn Phoenix, Rhuddlan. Mr F A Goldsmith oedd y rheolwr. Gwerthwyd amrywiaeth eang o beiriannau amaethyddol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, yn Ewrop a chyn belled ag Awstralia, India, De America a De Affrica. Mae cofnodion yng Nghylchgronau Cymru Ar-lein yn dweud bod adroddiad ar y Sioe Smithfield (sioe flynyddol o anifeiliaid a pheiriannau fferm a gynhelir yn Llundain) yn cyfeirio at stonddin Corbett Williams & Fab Rhuddlan fel “arddangosfa fawr, nodedig am ei natur amrywiol ac am ei chymeriad awyddus o fod yn flaengar ymhob peth a gynigir. Fel enillwyr o dros dri chant o wobrwyon cyntaf, medalau aur ac arian, mae'r cwmni wedi ennill rhagoriaeth uchel yn eu cynhyrchion sy'n cael eu gwneud i gyd ym Mhrydain”.



Cynnyrch Gwaith Haearn Phoenix, 1910

Fodd bynnag, gyda phrinder ffrwydron ar ddechrau'r rhyfel a'r cynnig o gontractau proffidiol gan David Lloyd George, Gweinidog Arfau, defnyddiwyd y gwaith yn helaeth ar gyfer cynhyrchu cyrff siel ar draul offer amaethyddol, sefyllfa sy'n parhau ar ôl diwedd y rhyfel. Yn benodol, cyrff siel ar gyfer sielau 18 pwys oedd yn cael eu cynhyrchu ac yn cael eu hanfon, yn ôl yr arfer, i fannau eraill i osod tanwyr a ffrwydron ynddynt.

Daeth Francis Corbett, swyddog yn y Fyddin Dirioogaethol cyn y rhyfel, yn gysylltiedig yn gryf mewn gweithgarwch milwrol yn gynnar yn yr alwad i'r gâd ac fe'i comisiynwyd fel Ail Is-gapten yn y 5ed Ffwrsilwyr Brenhinol Cymreig. Gan redeg ymgyrch recriwtio brwd ac yn effeithiol wrth annog nifer fawr o ddynion i ymrestru, cafodd ei bennu i ddyletswyddau drilio ei recriwtiaid newydd. Yn ystod cyfnod y rhyfel roedd ef a dau gyfarwyddwr arall o'r cwmni yn ogystal â thua pedwar deg pump y cant o'r gweithlu yn absennol yn y lluoedd arfog, ac roedd rhan o'r diffyg staff yn cael ei lenwi gan ferched, ffoaduriaid o Wlad Belg a dynion a oedd yn rhy wael i wasanaethu yn y rhyfel.



Capten Francis Corbett

Oherwydd cwmp arian cyfredol, prinder tanwydd a thrafnidiaeth a'r anallu i gystadlu gyda datblygiadau a wnaed mewn dylunio a chynhyrchu mewn ffatrioedd nad oeddynt yn delio mewn arfau rhyfel ym Mhrydain a thramor, yn enwedig yn America gan gwmnïau fel Massey-Harris ac International Harvester, caeodd ffowndri Phoenix Corbett Williams a'i Fab ym mis Tachwedd 1923. Ail-agorodd yn hwyrach dan berchenogaeth newydd fel cynhyrchwyr castio diwydiannol.



Gweithwyr arfau a chas sielau, 1916

Ch-dde David Jones: Harry Griffiths, Iorwerth (brawd David) a Evans (Pen y Bont).